

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**Craffu cyn y broses ddeddfu ar y Bil
Cymwysterau Cymru arfaethedig**

Gorffennaf 2014



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8242

Ffacs: 029 2089 8021

E-bost: PwyllgorPPI@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2014

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Craffu cyn y broses ddeddfu ar y Bil
Cymwysterau Cymru arfaethedig

Gorffennaf 2014



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Ei gylch gwaith yw archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar faterion yn ymwneud â gwariant, gweinyddiaeth a pholisi sy'n cwmpasu: addysg, iechyd a lles plant a phobl ifanc Cymru, gan gynnwys eu gofal cymdeithasol.

Ar 22 Ionawr 2014, cytunodd y Cynulliad i newid cylch gwaith y Pwyllgor i gynnwys Addysg Uwch. Bydd y pwnc yn parhau yn rhan o gylch gwaith y Pwyllgor Menter a Busnes hefyd, gyda'r ddau bwyllgor yn ystyried Addysg Uwch o'u safbwyntiau penodol. Enw blaenorol y Pwyllgor oedd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor



Ann Jones (Cadeirydd)

Llafur Cymru
Dyffryn Clwyd



Angela Burns

Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin Caerfyrddin
a De Sir Benfro



Keith Davies

Llafur Cymru
Llanelli



Suzy Davies

Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin De Cymru



Rebecca Evans

Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



Bethan Jenkins

Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru



Lynne Neagle

Llafur Cymru
Tor-faen



David Rees

Llafur Cymru
Aberafan



Aled Roberts

Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gogledd Cymru



Simon Thomas

Plaid Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cynnwys

Prif Gasgliadau ac Argymhellion y Pwyllgor	5
Cyflwyniad	8
Dull ymchwilio	8
Cefndir y ddeddfwriaeth arfaethedig	10
Y Prif Faterion ar gyfer Bil Cymwysterau Cymru	12
Dull gweithredu datblygiadol ar gyfer Cymwysterau Cymru	12
Trefniadau llywodraethu ac annibyniaeth weithredol Cymwysterau Cymru	14
Y posibilrwydd o golli momentwm wrth reoli'r newid strwythurol	15
Sgôp pwerau rheoleiddio	16
Rheoleiddio a sicrhau ansawdd cymwysterau academaidd	17
Y model comisiynu dyfarniadau arfaethedig	18
Y cysylltiadau rhwng Cymwysterau Cymru a gosod y cwricwlwm	19
Rheoleiddio ac achredu cymwysterau galwedigaethol.....	20
Dull gweithredu mwy strategol ar gyfer cymwysterau galwedigaethol.....	21
Ymyrryd pan nad yw cymwysterau galwedigaethol yn fasnachol hyfyw	22
Cynnwys cymwysterau prentisiaethau yng nghylch gwaith Cymwysterau Cymru.....	23
Ystyriaethau eraill i Cymwysterau Cymru	25
Cyfrifoldeb yn y pen draw pan fydd pethau'n mynd o chwith.....	25
Y potensial o gael marchnad y tu allan i Gymru.....	26
Cywirdeb a deall diffiniadau	27
A ddylai Cymwysterau Cymru gymeradwyo'r holl gymwysterau galwedigaethol?	27
Darpariaeth cymwysterau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg	29
Yr her o ailddiffinio perthynas a meithrin cysylltiadau a'r broses ar gyfer gosod safonau a datblygu cymwysterau galwedigaethol.....	29
Y berthynas rhwng Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru	31

Prif Gasgliadau ac Argymhellion y Pwyllgor

Rhestrir argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru isod. Fe'u rhestrir yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr adroddiad – ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth ategol. Mae'r argymhellion wedi cael eu categoreiddio yn dri grŵp, fel y gwelir isod:

Argymhelliad Grŵp A – prif argymhelliad y Pwyllgor i sefydlu Cymwysterau Cymru yn gorff rheoleiddio yn unig.

Argymhellion Grŵp B – argymhellion y dylid eu hystyried, boed y Bil yn sefydlu Cymwysterau Cymru yn gorff rheoleiddio yn unig neu'n cynnwys darpariaethau ehangach.

Argymhellion Grŵp C – argymhellion y dylid eu hystyried os na dderbynnir prif argymhelliad y Pwyllgor yng Ngrŵp A yn unig, ac os yw'r Bil yn cynnwys swyddogaethau rheoleiddio a dyfarnu.

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y bydd Argymhelliad A1 yn cael effaith sylweddol ar y cynigion a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru, os bydd yn cael ei dderbyn. Fodd bynnag, byddai'n cadw'r dull gweithredu 'dau gam' a ragwelir ar hyn o bryd.

Ond, os na fydd Llywodraeth Cymru yn derbyn argymhelliad A1, ac yn parhau gydag un Bil ar gyfer elfennau rheoleiddio a dyfarnu, mae'r Pwyllgor yn credu bod angen rhoi cryn feddwl i'r darpariaethau yn y Bil.

Os bydd argymhelliad A1 yn cael ei dderbyn, byddai angen ystyried argymhellion Grŵp B, ond nid y rheini yng Ngrŵp C. Os na dderbynnir argymhelliad A1, byddai angen ystyried yr argymhellion yng Ngrŵp B ac yng Ngrŵp C.

Ystyriodd y Pwyllgor nifer o faterion eraill hefyd. Mae wedi ffurfio barn am y rhain, ond nid yw wedi gwneud argymhelliad ffurfiol. Tynnir sylw at y materion eraill hyn yn nes ymlaen yn yr adroddiad.

Argymhelliad Grŵp A

A rgymhelliad A1. Dylid cyfyngu Bil Cymwysterau Cymru i sefydlu Cymwysterau Cymru yn gorff rheoleiddio yn unig. Dylid cyflwyno newidiadau yn y dyfodol i'w gylch gwaith, gan gynnwys ei rôl fel corff dyfarnu, mewn Bil diweddarach, ar ôl ystyried y materion a nodwyd mewn adolygiadau perthnasol yn llawn, ac unwaith y mae'r broses ddyfarnu'n ddigon eglur.
(Tudalen 13)

Argymhelliad Grŵp B

Argymhelliad B1. Rhaid i'r Bil ddarparu ar gyfer annibyniaeth weithredol Cymwysterau Cymru er mwyn iddo weithio'n llwyddiannus, ac i sicrhau bod gan y cyhoedd ffydd yn ei waith.
(Tudalen 15)

Argymhelliad B2. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried y risg y gallai'r amser a'r adnoddau a fuddsoddir yn sefydlu Cymwysterau Cymru dynnu oddi ar y gwaith ar gymwysterau newydd, diwygiedig, a dylid sicrhau na effeithir ar y gwaith datblygiadol ehangach hwn.
(Tudalen 16)

Argymhelliad B3. Dylai Llywodraeth Cymru baratoi cynllun recriwtio staff manwl, gyda mesurau diogelu cadarn, i sicrhau bod staff yn cael eu recriwtio a'u trosglwyddo'n amserol.
(Tudalen 16)

Argymhelliad B4. Dylid drafftio'r Bil i ddarparu pwerau rheoleiddio hyblyg ac eang i Cymwysterau Cymru er mwyn sicrhau bod deddfwriaeth yn galluogi'r corff i reoleiddio'r broses o ddarparu unrhyw gymwysterau yng Nghymru.
(Tudalen 16)

Argymhelliad Grŵp C (dim ond os na dderbynnir Grŵp A)

Argymhelliad C1. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried yn ofalus sut y dylid sicrhau ansawdd cymwysterau academiaidd a'u rheoleiddio. Dylai Bil Cymwysterau Cymru wneud darpariaethau penodol a phriodol ar gyfer hyn.
(Tudalen 18)

Argymhelliad C2. Rhaid i'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru, yn ogystal â'r cyrff dyfarnu, fod yn glir. Rhaid i'r model newydd ar gyfer dyfarnu cymwysterau academiaidd fod yn glir ynghylch rolau'r sefydliadau o dan sylw.
(Tudalen 19)

Argymhelliad C3. Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth i sicrhau bod y berthynas a'r cydgysylltiad rhwng cymwysterau a'r cwricwlwm yn dryloyw ac yn cael eu rheoli'n effeithiol.
(Tudalen 20)

Argymhelliad C4. Dylai Llywodraeth Cymru wneud darpariaethau yn y Bil i alluogi Cymwysterau Cymru i roi dull gweithredu ar waith ar gyfer achredu cymwysterau galwedigaethol ar sail y model yn SQA. (Tudalen 21)

Argymhelliad C5. Dylai Llywodraeth Cymru archwilio cyfleoedd i Cymwysterau Cymru fabwysiadu dull gweithredu mwy strategol i IVETs, sy'n unigryw i Gymru ac o fewn yr agenda 14 - 19, gan wneud darpariaeth briodol ar gyfer hyn yn y Bil. (Tudalen 22)

Argymhelliad C6. Dylai'r Bil a/neu'r canllawiau cysylltiedig gynnwys darpariaeth ar gyfer o dan ba amgylchiadau y dylai Cymwysterau Cymru ymyrryd pan nad yw cymhwyster galwedigaethol pwysig ar gael. (Tudalen 23)

Argymhelliad C7. Dylai'r Bil wneud darpariaethau i Cymwysterau Cymru gael rôl arweiniol a strategol yng nghyswllt y fframwaith prentisiaethau a chymwysterau. (Tudalen 24)

Cyflwyniad

1. Ar 29 Ionawr 2014, cafodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg frïff technegol gan swyddogion Llywodraeth Cymru ynghylch Bil sydd ar y gweill gan Lywodraeth Cymru (y Bil) i sefydlu corff Cymwysterau Cymru. Roedd y brïff technegol yn rhoi rhybudd cynnar i'r Pwyllgor ynghylch beth oedd y Bil yn debygol o'i gynnwys, ac yn codi cwestiynau mewn sawl maes, gan gynnwys sut yr oedd y model arfaethedig yn cymharu â'r hyn a oedd yn yr Alban – sef yr hyn yr oedd Llywodraeth Cymru wedi selio llawer o fanylion ei chynigion arno.
2. Er nad oedd dyddiad wedi'i drefnu ar gyfer cyflwyno'r Bil, disgwyliid y byddai'r Bil yn cael ei gyflwyno ym mis Tachwedd/Rhagfyr 2014. Cyn cyflwyno'r Bil, felly, roedd y Pwyllgor yn bwriadu cynnal ymchwiliad byr a phenodol i graffu ar gynigion diweddaraf Llywodraeth Cymru yn ystod y cam hwn cyn-deddfu.

Dull ymchwilio

Craffu Cyn-Deddfu: Cylch Gorchwyl

3. Cytunwyd ar y dull gweithredu ar gyfer yr ymchwiliad craffu cyn-deddfu mewn Pwyllgor ar 5 Mawrth 2014. Y Cylch Gorchwyl y cytunwyd arno oedd i ystyried:
 - a yw'r weledigaeth a'r cylch gwaith arfaethedig ar gyfer Cymwysterau Cymru yn fodel sefydliadol effeithiol;
 - pa arferion da y gellir eu mabwysiadu o wledydd eraill o ran gwahanu swyddogaethau'r rheoleiddiwr arholiadau a'r sefydliad dyfarnu o fewn un corff;
 - a fydd y berthynas arfaethedig rhwng Cymwysterau Cymru, y sefydliadau dyfarnu gan gynnwys CBAC yn y tymor byr, a Llywodraeth Cymru, yn gweithio'n effeithiol; a
 - beth y bydd effaith Cymwysterau Cymru ar achredu cymwysterau galwedigaethol (gan gynnwys prentisiaethau).
4. Wrth ymgymryd â'r ymchwiliad, roedd y Pwyllgor hefyd yn cytuno i ganolbwyntio ar fodolau mewn manau eraill, gan ymweld ag Ansawdd a Chymwysterau Iwerddon (QQI)¹ ac Awdurdod Cymwysterau'r Alban (SQA)² i

¹ Ymweliad Pwyllgor i QQI: Dydd Iau 1 Mai 2014

² Ymweliad Pwyllgor i SQA: Dydd Iau 1 Mai 2014

ganfod ffeithiau ac i weld sut y mae'r systemau cymwysterau'n gweithio yn y ddwy wlad.

5. Hefyd, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar mewn cyfarfod ar 7 Mai 2014,³ gan:

- Huw Evans, Cadeirydd yr Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 - 19 oed yng Nghymru a Chadeirydd Bwrdd Cyngori Cymwysterau Cymru;
- Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC); a
- Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTfW).

³ [Cofnod y Trafodion](#)

Cefndir y ddeddfwriaeth arfaethedig

Yr Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 - 19 oed yng Nghymru

6. Ym mis Medi 2011, comisiynwyd Adolygiad annibynnol o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 – 19 oed yng Nghymru⁴ (yr Adolygiad) er mwyn ystyried sut y gallai Llywodraeth Cymru gyflawni gweledigaeth o “gymwysterau gwerthfawr a dealladwy sy’n bodloni anghenion ein pobl ifanc ac economi Cymru”. Cynhaliwyd yr Adolygiad oherwydd nifer o bryderon ynghylch cymhlethdod y system bresennol, i ba raddau yr oedd y system honno'n ddealladwy, a pherthnasedd, gwerth a manyldeb rhai cymwysterau.

7. Un o brif argymhellion yr Adolygiad mewn adroddiad ym mis Tachwedd 2012 oedd:

“Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu un corff (Cymwysterau Cymru) sy’n gyfrifol am reoleiddio a sicrhau ansawdd yr holl gymwysterau nad ydynt ar lefel gradd sydd ar gael yng Nghymru. Dros amser, dylai Cymwysterau Cymru fod yn gyfrifol am ddatblygu a dyfarnu’r rhan fwyaf o’r cymwysterau i ddysgwyr 14 i 16. I ddysgwyr ôl-16, dylai Cymwysterau Cymru ddatblygu a dyfarnu’r rhan fwyaf o’r cymwysterau cyffredinol a dylai hefyd reoleiddio cymwysterau sy’n cael eu darparu gan sefydliadau dyfarnu eraill. Dylai Llywodraeth Cymru a Chymwysterau Cymru gydweithio i lunio’r system gymwysterau genedlaethol ar gyfer Cymru a rhesymoli a chryfhau’r prosesau ar gyfer rheoleiddio a gwella’n barhaus, gan ddysgu oddi wrth y model sydd ar waith yn yr Alban.”⁵

8. Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhelliad ac mae’n cynnig cyflwyno Bil i sefydlu Cymwysterau Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud mai diben Bil Cymwysterau Cymru yw:

- sefydlu un corff i fod yn gyfrifol am reoleiddio a sicrhau ansawdd cymwysterau nad ydynt ar lefel gradd yng Nghymru gan dynnu’r cyfrifoldeb rheoleiddio cyfredol ar gyfer cymwysterau oddi wrth Weinidogion; a
- maes o law, cael un corff i fod yn gyfrifol am ddatblygu a dyfarnu’r rhan fwyaf o gymwysterau cyffredinol yng Nghymru, yn gyfrifol am ddyfarnu’r rhan fwyaf o gymwysterau i bobl ifanc 14 i 16 oed yn ogystal â chymwysterau Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru.

⁴ [Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru](#)

⁵ Ibid

9. Cynhaliwyd ymgynghoriad a oedd yn amlinellu'r cynigion ar gyfer y Bil rhwng 1 Hydref a 20 Rhagfyr 2013.⁶ Cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ddatganiad ar 2 Mehefin 2014 yn datgan bod crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi.⁷

⁶ [Ein Cymwysterau - Ein Dyfodol: Ymgynghoriad ar gynigion i greu corff cymwysterau newydd i Gymru](#)

⁷ [Datganiad Ysgrifenedig - Ymgynghoriad a Gweithgareddau Ymgysylltu ar Fil Cymwysterau \(Cymru\) - Crynodeb o Ymatebion](#)

Y Prif Faterion ar gyfer Bil Cymwysterau Cymru

Argymhelliad Grŵp A

Dull gweithredu datblygiadol ar gyfer Cymwysterau Cymru

10. Mae dwy ran i weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymwysterau Cymru. Y cam cyntaf fydd sefydlu Cymwysterau Cymru a throsglwyddo swyddogaethau rheoleiddio iddo o Lywodraeth Cymru. Yr ail gam fydd, maes o law, ehangu cylch gwaith Cymwysterau Cymru i gynnwys swyddogaethau dyfarnu. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi datgan, yn ymarferol, na fydd gweithgareddau dyfarnu Cymwysterau Cymru yr un fath â'r rheini sydd gan gyrff dyfarnu yn draddodiadol. Mae wedi cynnig model comisiynu, lle byddai Cymwysterau Cymru yn comisiynu sefydliadau dyfarnu fel CBAC i ddarparu'r cymwysterau.

11. Yr awgrym yw mai Bil Cymwysterau Cymru (Cymru) fydd y ddeddfwriaeth sylfaenol a fydd yn caniatáu ar gyfer cam cyntaf sefydlu'r corff newydd gyda swyddogaethau rheoleiddio, gan ychwanegu swyddogaethau dyfarnu i'w gylch gwaith yn ddiweddarach. Er y byddai'r ail gam hwn yn cael ei gyflawni "maes o law", mae'r Pwyllgor ar ddeall y byddai'r Bil arfaethedig yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â'r ddau gam.

12. Mae trydydd cam posibl mewn golwg hefyd, a allai arwain at Cymwysterau Cymru yn dod yn gorff dyfarnu cyflawn yn y dyfodol, fel yr argymhellwyd yn wreiddiol yn Adolygiad Huw Evans.⁸ Clywodd y Pwyllgor gan Mr Evans mai dyma oedd yr opsiwn a ffafrir ganddo yn y tymor hir o hyd, ac yng ngoleuni penderfyniad CBAC i aros yn annibynnol a'r posibilrwydd o her gyfreithiol, cafodd y cynnig presennol ei "dderbyn yn anfodlon" gan Fwrdd Cynghori Cymwysterau Cymru. Mewn datganiad ar 2 Mehefin 2014, dywedodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau:

"Yn y tymor hirach, rwy'n argyhoeddedig o rinweddau cael un corff sengl ar gyfer Cymru, ond ystyriaeth i'r dyfodol fydd hon."⁹

13. Mae'r Bil yn cael ei gyflwyno ar adeg pan fo llawer o waith adolygu a llawer o newid yn y sector, sy'n debygol o effeithio ar y ffordd y bydd Cymwysterau Cymru, cyrff dyfarnu a darparwyr addysg uwch yn gweithio yn y dyfodol agos ac yn y tymor hwy. Mae hyn yn cynnwys yr adolygiad asesu a chwricwlwm presennol, sy'n cael ei gyflawni mewn dau gam. Bydd canlyniad

⁸ [Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14i 19 oed yng Nghymru](#)

⁹ [Datganiad Ysgrifenedig - Ymgynghoriad a Gweithgareddau Ymgysylltu ar Fil Cymwysterau \(Cymru\) - Crynodeb o Ymatebion](#)

hyn yn cael effaith sylweddol ar waith Cymwysterau Cymru. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth a oedd yn pwysleisio pwysigrwydd cydreddeg y gwaith o ddiwygio cymwysterau a chwricwlwm yn agos, a dadleuon yn mynegi y dylid datblygu'r ddau ar y cyd.

Barn y Pwyllgor

14. Byddai cynnwys darpariaethau yn y Bil ar gyfer cylch gwaith Cymwysterau Cymru yn y dyfodol yng nghyswllt swyddogaethau dyfarnu yn cael ei ystyried yn fwy priodol ar ôl cael canlyniadau'r adolygiad asesu a chwricwlwm sydd ar y gweill, ac ar ôl rhagor o waith ar sut y bydd y broses ddyfarnu'n gweithio. Nid yw'r Pwyllgor wedi'i argyhoeddi bod digon o eglurder o ran sut y bydd y model comisiynu arfaethedig yn gweithio'n ymarferol eto, ac o ran cyfrifoldebau'r gwahanol sefydliadau sydd ynghlwm.

15. Mae'r Pwyllgor yn teimlo na fydd gan Lywodraeth Cymru ddigon o amser i ystyried y materion sy'n ymwneud â chylch gwaith ehangach Cymwysterau Cymru yn llawn, ac y byddai gofyn dibynnu mwy ar is-ddeddfwriaeth. Mae'r Pwyllgor yn bryderus ynghylch sut y bydd y Bil yn gallu rhoi cyfrif am ddull gweithredu sy'n datblygu ar gyfer y cylch gwaith a chyfrifoldebau Cymwysterau Cymru a sut y bydd yn gallu gwneud darpariaethau ar ei gyfer.

16. Mae'n hanfodol bod y broses ar gyfer sefydlu Cymwysterau Cymru yn cael ei rheoli yn y ffordd fwyaf effeithiol, a rhaid i hynny arwain at sefydliad cadarn gyda phwrpas clir sydd wedi'i ddiffinio'n dda.

17. Mae'r Pwyllgor yn credu y gellid gwneud hyn orau petai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Bil sy'n sefydlu Cymwysterau Cymru fel rheoleiddiwr yn unig. Dylid cyflwyno ystod lawn rôl a swyddogaethau Cymwysterau Cymru, gan gynnwys ei swyddogaethau fel corff dyfarnu, mewn Bil yn y dyfodol, ar ôl cwblhau adolygiadau, ac ar ôl ystyried yr holl faterion perthnasol yn llawn, ac unwaith y bydd gwybodaeth ynghylch sut y bydd y broses ddyfarnu'n gweithio'n ymarferol yn ddigon clir.

Argymhelliad A1: Dylid cyfyngu Bil Cymwysterau Cymru i sefydlu Cymwysterau Cymru yn gorff rheoleiddio yn unig. Dylid cyflwyno newidiadau yn y dyfodol i'w gylch gwaith, gan gynnwys ei rôl fel corff dyfarnu, mewn Bil diweddarach, ar ôl ystyried y materion a nodwyd mewn adolygiadau perthnasol yn llawn, ac unwaith y mae'r broses ddyfarnu'n ddigon eglur.

18. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y bydd Argymhelliad A1 yn cael effaith sylweddol ar y cynigion a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru, os bydd yn cael

ei dderbyn. Fodd bynnag, byddai'n cadw'r dull gweithredu 'dau gam' a ragwelir ar hyn o bryd. Byddai ail gam ychwanegu swyddogaethau dyfarnu i gylch gwaith Cymwysterau Cymru'n cael ei gyflwyno mewn deddfwriaeth sylfaenol ar wahân, yn hytrach na thrwy'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaethau sydd gan Weinidogion yn unol â'r Bil hwn o bosibl.

19. Serch hynny, os bydd Llywodraeth Cymru'n credu ei bod yn briodol parhau gydag un Bil ar gyfer rheoleiddio a dyfarnu, mae'r Pwyllgor o'r farn y dylid ystyried y darpariaethau yn y Bil o ddifrif, beth y byddai hyn yn ei olygu yn y tymor byr ac yn y tymor hwy, a'r ffordd orau i ddiogelu'r deddfwriaeth yn y dyfodol.

20. Mae nifer o'r materion penodol a'r argymhellion sy'n dilyn yn yr adroddiad yn cael eu gwneud ar sail Llywodraeth Cymru yn cyflwyno un Bil sy'n cynnwys swyddogaethau rheoleiddio a dyfarnu. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn glir wrth fynegi ei safbwynt nad dyma'r opsiwn a ffafrir.

Argymhellion Grŵp B

Trefniadau llywodraethu ac annibyniaeth weithredol Cymwysterau Cymru

21. Un o'r nodweddion sy'n sbardun ar gyfer sefydlu Cymwysterau Cymru yw er mwyn tynnu'r cyfrifoldebau rheoleiddio cyfredol ar gyfer cymwysterau oddi wrth Weinidogion Llywodraeth Cymru.

22. Y neges o Iwerddon a'r Alban oedd, er bod awdurdodau cymwysterau'n dibynnu ar gyllid gan y llywodraeth o bosibl, ac yn atebol i Weinidogion yn y pen draw, yr hyn sydd bwysicaf iddynt yw eu hannibyniaeth weithredol.

23. Pwysleisiodd QQI ac SQA y ffaith y byddai cyflawni swyddogaethau rheoleiddio a sicrhau ansawdd y tu allan i'r llywodraeth yn ddymunol, gyda QQI yn benodol yn esbonio mai annibyniaeth weithredol oedd yn bwysig, er ei fod yn dibynnu ar gyllid gan Lywodraeth Iwerddon.

24. Wrth wneud sylw ynghylch ei pherthynas ag Ysgrifennydd Cabinet yr Alban, dywedodd Dr Janet Brown, Prif Weithredwr SQA, ei fod wedi cydnabod buddion tymor hir SQA yn gwrthsefyll unrhyw bwysau gwleidyddol tymor byr y gallai llywodraethau gael eu temtio i'w rhoi.

Barn y Pwyllgor

25. Er bydd Cymwysterau Cymru'n dibynnu ar Lywodraeth Cymru'n ariannol, mae'r Pwyllgor yn credu bod yn rhaid iddo weithredu'n annibynnol ar Weinidogion Cymru er mwyn i'r corff lwyddo. Mae'r annibyniaeth hon

hefyd yn hanfodol i sicrhau bod gan y cyhoedd ffydd yng ngwaith Cymwysterau Cymru.

Argymhelliad B1: Rhaid i'r Bil ddarparu ar gyfer annibyniaeth weithredol Cymwysterau Cymru er mwyn iddo weithio'n llwyddiannus, ac i sicrhau bod gan y cyhoedd ffydd yn ei waith.

Y posibilrwydd o golli momentwm wrth reoli'r newid strwythurol

26. Mae'r cynigion ar gyfer sefydlu Cymwysterau Cymru yn cael eu datblygu ar adeg pan fo gwaith manwl a chymhleth ar y gweill i weithredu'r argymhellion a nodwyd mewn man arall, yn yr Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru. Cadarnhaodd Huw Evans y byddai'r rhain yn cael eu rhoi ar waith erbyn 2017, gan mwyaf.

27. Nododd CBAC mai'r newidiadau sy'n cael eu gwneud ar hyn o bryd i gymwysterau cyffredinol oedd y broses ddiwygio fwyaf erioed yng Nghymru yn y maes hwn, ac mae'r Pwyllgor yn pryderu na ddylai sefydlu Cymwysterau Cymru dynnu oddi ar y gwaith o roi newidiadau eraill i gymwysterau ar waith.

28. Yn ystod trafodaethau, tynnodd QQI sylw at faterion yr oedd wedi'u profi wrth reoli ei newid strwythurol ei hun. Rhybuddiodd QQI fod sefydlu'r sefydliad newydd ac uno'r cyrff eraill wedi cyfeirio egni ac amser oddi wrth lawer iawn o'i waith yn datblygu cymwysterau yn Iwerddon.

29. Mater cysylltiedig a gododd yn ystod y brîff technegol gan swyddogion Llywodraeth Cymru ar 29 Ionawr 2014 oedd goblygiadau staffio trosglwyddo cyfrifoldebau rheoleiddio i Cymwysterau Cymru. Petai'r Bil yn cael ei basio, bydd yr amserlenni ar gyfer ei roi ar waith yn dynn, a rhaid i Cymwysterau Cymru 'fwrw iddi ar unwaith' i bob pwrpas. Mae materion posibl a all godi un ai o drosglwyddo staff i'r sefydliad newydd, neu o recriwtio staff newydd, yn peri risg gwirioneddol i roi'r ddeddfwriaeth ar waith.

Barn y Pwyllgor

30. Mae'r Pwyllgor yn pryderu oherwydd bod y gwaith o sefydlu Cymwysterau Cymru yn cael ei wneud ar yr un pryd â newidiadau mawr i gymwysterau, fel y nodir yn adolygiad Huw Evans. Yn sgil hynny, efallai y bydd goblygiadau posibl i Gymru y bydd yn rhaid eu rheoli'n ofalus.

31. Er mwyn lleihau'r risg i weithredu'r Bil, mae'r Pwyllgor hefyd yn credu ei bod yn hanfodol bod Llywodraeth Cymru'n rheoli'r broses ar gyfer penodi staff i Cymwysterau Cymru yn effeithiol, ac yn amserol er mwyn sicrhau bod ganddo ddigon o staff i gyflawni ei swyddogaethau o'r cychwyn.

Argymhelliad B2: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried y risg y gallai'r amser a'r adnoddau a fuddsoddir yn sefydlu Cymwysterau Cymru dynnu oddi ar y gwaith ar gymwysterau newydd, diwygiedig, a dylid sicrhau na effeithir ar y gwaith datblygiadol ehangach hwn.

Argymhelliad B3: Dylai Llywodraeth Cymru baratoi cynllun recriwtio staff manwl, gyda mesurau diogelu cadarn, i sicrhau bod staff yn cael eu recriwtio a'u trosglwyddo'n amserol.

Sgôp pwerau rheoleiddio

32. Un o brif negeseuon yr Alban i'r Pwyllgor oedd yr angen i ddeddfwriaeth alluogi Cymwysterau Cymru i reoleiddio'r holl gymwysterau angenrheidiol.

33. Clywodd y Pwyllgor fod SQA wedi teimlo'n rhwystredig oherwydd bod yr hyn a nodir yn y ddeddfwriaeth berthnasol yn cyfyngu arno. Dim ond SVQs y mae Achrediad SQA yn gallu eu rheoleiddio. Ni all reoleiddio unrhyw gymwysterau galwedigaethol eraill. Mae'r darparwyr hyn yn dewis peidio â chael eu hachredu gan SQA. Cyngor SQA oedd y byddai o fudd i Gymru petai Cymwysterau Cymru yn cael swyddogaethau rheoleiddio mor eang â phosibl yng nghyswllt cymwysterau galwedigaethol.

Barn y Pwyllgor

34. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod rhwystredigaeth SQA oherwydd y cyfyngiadau ar ei bwerau rheoleiddio gan ddeddfwriaeth gyfredol yn yr Alban, ac mae'n bwysig bod Cymru'n dysgu gwersi o hyn. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn derbyn na fyddai'r mater hwn yn berthnasol petai'r holl gymwysterau galwedigaethol y telir amdanynt ag arian cyhoeddus yn gorfod cael eu cymeradwyo gan Cymwysterau Cymru, fel yr amlygwyd yn ystyriaethau'r Pwyllgor.

Argymhelliad B4: Dylid drafftio'r Bil i ddarparu pwerau rheoleiddio hyblyg ac eang i Cymwysterau Cymru er mwyn sicrhau bod deddfwriaeth yn galluogi'r corff i reoleiddio'r broses o ddarparu unrhyw gymwysterau yng Nghymru.

Argymhellion Grŵp C

Rheoleiddio a sicrhau ansawdd cymwysterau academiaidd

35. Un o'r pwyntiau mwyaf arwyddocaol i ddeillio o'r cyfarfod â SQA oedd nad oedd unrhyw ddiffiniad o 'reoleiddio' yng nghyswllt cymwysterau academiaidd yn Neddf Addysg (Yr Alban) 1996.

36. Er bod gofyniad cyfreithiol i achredu Cymwysterau Galwedigaethol yr Alban (SVQs), sy'n cynnwys adran Achredu SQA yn rheoleiddio a sicrhau ansawdd, nid yw'r un lefel o fesurau diogelwch cyfreithiol ar gael ar gyfer rheoleiddio cymwysterau mewn ysgolion. Yn yr un modd, nid oes gofyn i gymwysterau academiaidd gael eu 'hachredu' gan SQA, er eu bod yn cael eu 'dilysu' gan swyddogaeth ddyfarnu SQA.

37. Y ddadl a gyflwynwyd gan SQA oedd bod sicrhau ansawdd a rheoleiddio'n cael eu cynnwys yng ngweithgareddau dyfarnu SQA a'u bod wrth galon y sefydliad. Fodd bynnag, dywedodd SQA, petai deddfwriaeth yn cael ei gwneud nawr, byddai'n well gwneud darpariaethau'n benodol ar gyfer rheoleiddio cymwysterau academiaidd, er mai'r swyddogaeth ddyfarnu fyddai'n dal i fod yn gyfrifol am hyn, a byddai'n dal i reoleiddio ei hun.

38. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, nododd Huw Evans y canlynol am wledydd fel yr Alban, Iwerddon a Denmarc:

“There [is] a high level of trust with built in quality assurance as opposed to regulatory powers. Over reliance is seen as a UK/England approach to managing complexity and variable standards within the qualifications market. Historically, Wales has been part of this process as it has been so closely aligned.”¹⁰

39. Mewn tystiolaeth lafar, dadleuodd Mr Evans dros system hunan-reoleiddio ar gyfer cymwysterau academiaidd, yng Nghymru, er y byddai hynny ymhellach yn y dyfodol (er enghraifft ymhen deng mlynedd), lle byddai sicrhau ansawdd wedi'i ymgorffori yn y cymhwyster ei hun.

“Rwy'n credu mai'r hyn maen nhw wedi ei wneud yn yr Alban yw symud bant o'r model o edrych ar reoleiddio, yn enwedig o safbwynt cymwysterau cyffredinol. Yr hyn maen nhw'n edrych arno ac yn canolbwyntio arno yw datblygu ansawdd y cymhwyster. Rwy'n credu mai dyna le dylem ni fynd yng Nghymru ac rwy'n credu mai dyna hanner y broblem sydd gennym ar y funud yng Nghymru. Dyna pam

¹⁰ [CYPE\(4\)-12-14 – Papur 2 – Huw Evans](#)

mae cymaint o broblemau gennym o safbwynt arholiadau ddim yn gweithio allan yn hollol iawn – achos nad ydym wedi canolbwyntio ar yr ansawdd hwnnw.”¹¹

40. Dadl Gareth Pierce oedd bod y cyd-destun yn wahanol iawn i'r Alban oherwydd y ffaith y byddai'r un cymwysterau a ddefnyddir yng Nghymru hefyd ar gael yn Lloegr a hynny mewn amgylchedd o gryn reoleiddio.

Barn y Pwyllgor

41. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylid ystyried sut y dylid sicrhau ansawdd a rheoleiddio cymwysterau academaidd yng Nghymru, a pha ddarpariaeth y dylai'r ddeddfwriaeth ei gwneud ar gyfer hyn. Wrth wneud hynny, dylid hefyd ystyried manteision ac anfanteision model yr Alban; gweledigaeth Huw Evans ar gyfer hunan-reoleiddio; a beth yw'r ffordd orau o ymgorffori ansawdd mewn cymwysterau o'r cychwyn.

Argymhelliad C1: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried yn ofalus sut y dylid sicrhau ansawdd cymwysterau academaidd a'u rheoleiddio. Dylai Bil Cymwysterau Cymru wneud darpariaethau penodol a phriodol ar gyfer hyn.

Y model comisiynu dyfarniadau arfaethedig

42. Clywodd y Pwyllgor gan CBAC fod angen rhagor o eglurder ynghylch y model ar gyfer dyfarnu cymwysterau, fel y nodwyd ym mhapur ymgynghori Llywodraeth Cymru ddiwedd 2013. Dywedodd Gareth Pierce wrth y Pwyllgor:

“... ein barn ni yn CBAC yw bod llawer iawn o waith manwl i'w wneud ar y model, a bod hynny yn mynd i fod yn allweddol i lwyddiant Cymwysterau Cymru. Mae angen dealltwriaeth glir o rôl y corff newydd a rhyngwyneb gyda'r partneriaid allweddol eraill.”¹²

43. Dywedodd Mr Pierce mai'r rôl rheoleiddio oedd agwedd fwyaf clir cylch gwaith Cymwysterau Cymru, ond bod 'angen tipyn o ddatblygu o ran syniadaeth'. Pwysleisiodd bwysigrwydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu pa gyfrifoldebau yr oedd am eu cadw a'r rheini a fydd yn aros yn nwylo Cymwysterau Cymru a'r cyrff dyfarnu a gomisiynir.

¹¹ Tystiolaeth lafar, 7 Mai 2014, [Cofnod y Trafodion \(para 152\)](#)

¹² Tystiolaeth lafar, 7 Mai 2014, [Cofnod y Trafodion \(para 11\)](#)

44. Dywedodd Huw Evans mewn tystiolaeth ysgrifenedig:

“In the first instance, Qualifications Wales will not be a fully-fledged awarding body but will take responsibility for the design, development and awarding of its own suite of qualifications by commissioning one or more awarding bodies to perform these functions on its behalf.”¹³

Barn y Pwyllgor

45. Mae'r Pwyllgor yn credu bod angen bod yn glir ynghylch pwy fydd yn gwneud beth o dan y model newydd ar gyfer dyfarnu cymwysterau academiaidd a sut y bydd y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a'r cyrff dyfarnu a gomisiynir i ddarparu'r cymwysterau'n gweithio'n ymarferol.

Argymhelliad C2: Rhaid i'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru, yn ogystal â'r cyrff dyfarnu, fod yn glir. Rhaid i'r model newydd ar gyfer dyfarnu cymwysterau academiaidd fod yn glir ynghylch rolau'r sefydliadau o dan sylw.

Y cysylltiadau rhwng Cymwysterau Cymru a gosod y cwricwlwm

46. Ni fwriedir i Cymwysterau Cymru gael cyfrifoldebau am gwricwla, ac amlygwyd hyn fel un o'r prif wahaniaethau rhwng Cymwysterau Cymru a'r rôl a oedd gan Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru yn flaenorol (ACCAC).

47. Yn ei dystiolaeth, nododd Huw Evans hefyd na fyddai Cymwysterau Cymru'n edrych ar y cwricwlwm na pholisi sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm. Aeth Mr Evans yn ei flaen i ddweud y byddai'r cwricwlwm:

“... yn rhywbeth sydd gan Lywodraeth Cymru, a byddwn ni yn dilyn yr hyn y mae Llywodraeth Cymru'n gofyn inni ei wneud o safbwynt y cwricwlwm.”¹⁴

48. Wrth drafod y pwynt hwn, nododd Gareth Pierce (CBAC) fod hwn yn ddull gweithredu a oedd yn cael ei dderbyn, ac nad oedd yn anghyffredin cael dulliau ar waith lle'r oedd llywodraethau'n rhoi neges glir i gorff cwricwlwm neu gymwysterau ynghylch beth y dylai'r flaenoriaeth fod iddynt hwy.

¹³ [CYPE\(4\)-12-14 – Papur 2 – Huw Evans](#)

¹⁴ Tystiolaeth lafar, 7 Mai 2014, [Cofnod y Trafodion \(para 178\)](#)

49. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod hyn, ond mae'n glir o ran ei farn fod yn rhaid cael cydgysylltiad wedi'i reoli'n dda rhwng cymwysterau a'r cwricwlwm er mwyn gwneud yn siŵr y bydd y trefniadau pontio i'r system newydd yn llwyddo.

50. Mewn ymateb i gwestiynau am fwllch tybiedig o ran cyfeiriad ac arbenigedd cwricwlwm ar ôl diddymu ACCAC, dywedodd Gareth Pierce y canlynol:

“Mae fel petai Llywodraeth Cymru a CBAC yn dal dwylo o amgylch twll, a'r twll yw ACCAC.”¹⁵

51. Deilliodd arwyddocâd y cysylltiadau agos rhwng awdurdodau cymwysterau a'r cwricwlwm o'r ymweliadau ag Iwerddon a'r Alban hefyd, gyda SQA yn nodi eu bod yn ymwneud yn agos â'r broses o osod y cwricwlwm. Yn Iwerddon, mae Cyngor Cenedlaethol Cwricwlwm ac Asesu yn gweithio gyda'r Comisiwn Arholiadau Gwladol ar gymwysterau a chwricwlwm ar gyfer disgyblion oed ysgol.

52. Tynnodd Huw Evans sylw at y ffaith fod Bwrdd Cyngori Cymwysterau Cymru yn gweithio'n agos gyda swyddogion cwricwlwm i gydweddu'r ddwy agenda, gan bwysleisio y byddai'n rhaid i Cymwysterau Cymru allu ymateb i unrhyw ddatblygiadau cwbl newydd i'r cwricwlwm.

Barn y Pwyllgor

53. Mae'r Pwyllgor yn credu ei bod yn hanfodol cysoni cymwysterau a'r cwricwlwm o dan y trefniadau newydd. Os nad yw Cymwysterau Cymru am gael cyfrifoldebau dros gwricwlwm, fel sy'n cael ei gynnig, mae'r Pwyllgor yn credu ei bod yn hanfodol bod Llywodraeth Cymru'n gweithio'n strategol i reoli'r berthynas a'r cydgysylltiad rhwng cymwysterau a'r cwricwlwm yn ofalus.

Argymhelliad C3: Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth i sicrhau bod y berthynas a'r cydgysylltiad rhwng cymwysterau a'r cwricwlwm yn dryloyw ac yn cael eu rheoli'n effeithiol.

Rheoleiddio ac achredu cymwysterau galwedigaethol

54. Roedd effaith Cymwysterau Cymru ar achredu cymwysterau galwedigaethol yn un o brif bryderon y Pwyllgor o ddechrau'r ymchwiliad.

¹⁵ Tystiolaeth lafar, 7 Mai 2014, [Cofnod y Trafodion \(para 88\)](#)

55. Clywodd y Pwyllgor am y broses yn SQA ar gyfer achredu cymwysterau galwedigaethol - proses a oedd yn cael ei chyflawni (o dan ddeddfwriaeth) gan Bwyllgor Achredu, sydd o fewn SQA ond sy'n adrodd yn uniongyrchol i Lywodraeth yr Alban. Dywedodd SQA wrth y Pwyllgor fod y Pwyllgor Achredu yn allweddol i reoli unrhyw wrthdaro tybiedig rhwng buddiannau rhwng swyddogaethau dyfarnu a rheoleiddio SQA gyda chymwysterau galwedigaethol.

56. Er mwyn lleddfu'r beichiau gweinyddol ar y Pwyllgor Achredu, sefydlodd SQA Grŵp Cydlynu Achrediadau i wneud penderfyniadau ar ran y Pwyllgor, sy'n ateb ymarferol i'r pwysau ar y Pwyllgor Achredu.

Barn y Pwyllgor

57. Mae'r Pwyllgor yn credu bod y model y mae SQA wedi'i fabwysiadu'n ddull effeithiol ar gyfer achredu cymwysterau galwedigaethol, gyda phrosesau sy'n cael eu rheoli'n dda ar gyfer delio ag unrhyw wrthdaro tybiedig rhwng buddiannau.

Argymhelliad C4: Dylai Llywodraeth Cymru wneud darpariaethau yn y Bil i alluogi Cymwysterau Cymru i roi dull gweithredu ar waith ar gyfer achredu cymwysterau galwedigaethol ar sail y model yn SQA.

Dull gweithredu mwy strategol ar gyfer cymwysterau galwedigaethol

58. Mae'r Pwyllgor wedi ystyried a fyddai sefydlu Cymwysterau Cymru'n rhoi cyfle i'r corff newydd hwnnw fod yn rhan fwy strategol, yn enwedig mewn cymwysterau galwedigaethol.

59. Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor, dadl Gareth Pierce o CBAC oedd bod cymwysterau galwedigaethol, yn enwedig cyrsiau Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol Cychwynnol (IVET) yn faes lle gallai Cymwysterau Cymru chwarae rôl strategol iawn:

"I hope that Qualifications Wales will have started discussions on [IVET programmes] well before they are fully set up. There is a strategic role to play there, to see Wales move forward with a really top-class IVET model that is well suited to being delivered nationally within a 14-19 framework that prioritises bilingual availability as well. So, for the moment, we are working in terms of joining together of qualifications that happen to be available in the IVET area, but a much more strategic approach is possible, linking with the Welsh baccalaureate and drawing on the European experience of how you have a really good IVET programme that marries well with the general

education that those young people are also pursuing. So, strategically, Qualifications Wales can play a very substantial role in moving the IVET area forward.”¹⁶

60. Roedd Mr Pierce yn gwahaniaethu rhwng IVETs a chyrsgiau Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol Parhaus (CVET) o ran y capasiti i greu dull gweithredu unigryw i Gymru. Yn ôl Mr Pierce, bydd CVETs yn dal i fod y rhai cyfredol, sy'n cael eu darparu gan sefydliadau dyfarnu sy'n gweithio ar hyd a lled y DU:

“rwy'n credu bod cyfle gwych i Gymru drwy ryddhau ei hun, i raddau, o'r fframwaith tair gwlad ar gyfer IVET, a datblygu model ar gyfer Cymru, gan bwysleisio darpariaeth ddwyieithog, ac adnoddau sy'n ei hybu a'i chefnogi. Mae hynny'n bosibl drwy resymoli. Mae hwnnw'n un o'r cyfleoedd mwyaf cyffrous rhwng nawr a diwedd y degawd, sef y gall fod rhaglenni IVET a darpariaeth alwedigaethol 14-19 gwirioneddol dda sy'n strategol o ran ei gweledigaeth.”¹⁷

61. Dywedodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTfW) wrth y Pwyllgor ei fod yn croesawu'r eglurhad ar IVETs a CVETs yn fawr, fel yr argymhellir yn yr Adolygiad o Gymwysterau 14 - 19 gan ddweud bod hyn yn bwysig yn ystod cyfnodau marcio cynnydd dysgwyr.

Barn y Pwyllgor

62. Mae'r Pwyllgor yn credu bod sefydlu Cymwysterau Cymru'n gyfle delfrydol i'r corff newydd fod yn rhan fwy strategol mewn cymwysterau galwedigaethol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn credu y gellid archwilio dulliau i ganiatáu'r dull gweithredu mwy strategol hwn yn llawn yn ystod y cam hwn, gyda darpariaethau priodol yn cael eu cynnwys yn y Bil pan fydd yn cael ei gyflwyno.

Argymhelliad C5: Dylai Llywodraeth Cymru archwilio cyfleoedd i Cymwysterau Cymru fabwysiadu dull gweithredu mwy strategol i IVETs, sy'n unigryw i Gymru ac o fewn yr agenda 14 - 19, gan wneud darpariaeth briodol ar gyfer hyn yn y Bil.

Ymyrryd pan nad yw cymwysterau galwedigaethol yn fasnachol hyfyw

63. Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor, roedd NTfW yn awyddus i archwilio potensial Cymwysterau Cymru i ymyrryd mewn sefyllfa lle nad oedd yr

¹⁶ Tystiolaeth lafar, 7 Mai 2014, [Cofnod y Trafodion \(para 128\)](#)

¹⁷ Tystiolaeth lafar, 7 Mai 2014, [Cofnod y Trafodion \(para 132\)](#)

ysgogiad masnachol yn ddigon i gorff dyfarnu ddatblygu achos busnes newydd ar gyfer cymhwyster galwedigaethol newydd yng Nghymru.

64. Roedd NTfW, fodd bynnag, yn gobeithio mai dim ond lle'r oedd methiant sylweddol yn y farchnad o ran cymhwyster penodol, nad oedd yn cael ei gyflwyno gan gyrrff dyfarnu gyda sicrwydd ansawdd, y byddai Cymwysterau Cymru yn ymyrryd.

65. Yn achos yr Alban, dywedodd SQA fod eu cymwysterau mwy proffidiol yn cefnogi eu cymwysterau dielw, ond pwysig er hynny, yn ariannol. Ychwanegasant y byddent weithiau'n gofyn i Lywodraeth yr Alban am nawdd petai cymhwyster posibl yn flaenoriaeth genedlaethol, ond nad oedd yn hyfyw o safbwynt masnachol.

Barn y Pwyllgor

66. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai fod sgôp i Cymwysterau Cymru i ymyrryd mewn amgylchiadau lle nad yw cymwysterau galwedigaethol yn hyfyw, ond byddai gofyn i'r amgylchiadau ar gyfer ymyrryd fod yn eglur.

Argymhelliad C6: Dylai'r Bil a/neu'r canllawiau cysylltiedig gynnwys darpariaeth ar gyfer o dan ba amgylchiadau y dylai Cymwysterau Cymru ymyrryd pan nad yw cymhwyster galwedigaethol pwysig ar gael.

Cynnwys cymwysterau prentisiaethau yng nghylch gwaith Cymwysterau Cymru

67. Er nad oedd prentisiaethau'n rhan o'r cylch gwaith a nodwyd ar gyfer yr adolygiad hwn, yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, dywedodd Huw Evans ei fod yn cydnabod yr angen i brentisiaethau a'r cymwysterau sy'n cyfrif ar gyfer prentisiaethau fod yn rhan o waith Cymwysterau Cymru.

68. Dywedodd Mr Evans ei fod yn rhagweld y byddai Cymwysterau Cymru'n awdurdod cyflwyno sy'n gallu dewis y fframwaith cymwysterau a beth sy'n cael ei gynnwys yn y fframwaith prentisiaethau. Tynnodd sylw at y gwahaniaeth rhwng cyfrifoldebau o'r natur hwn a'r rheini sy'n gysylltiedig â chyllid, a dywedodd y dylai'r rheini barhau i fod yn nwylo Llywodraeth Cymru.

69. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd NTfW y byddai'n:

“...welcome (strongly) an increasing role for Qualifications Wales in the area of apprenticeships, and would particularly welcome

Qualifications Wales becoming the 'Issuing Authority' for Apprenticeship Frameworks in Wales."¹⁸

70. Mewn tystiolaeth lafar, ychwanegodd NTfW ei fod yn gweld Cymwysterau Cymru fel porthor sy'n cymeradwyo darparu ac ariannu'r brentisiaeth honno yng Nghymru.

Barn y Pwyllgor

71. Mae'r Pwyllgor yn cytuno y gallai Cymwysterau Cymru chwarae mwy o ran ym maes cymwysterau prentisiaethau.

Argymhelliad C7: Dylai'r Bil wneud darpariaethau i Cymwysterau Cymru gael rôl arweiniol a strategol yng nghyswllt y fframwaith prentisiaethau a chymwysterau.

¹⁸ [CYPE\(4\)-12-14 - Papur 3 - Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru](#)

Ystyriaethau eraill i Cymwysterau Cymru

72. Yn ystod yr ymchwiliad, ystyriodd y Pwyllgor faterion a oedd yn amlwg yn gysylltiedig â Cymwysterau Cymru hefyd, ond a oedd, ym marn y Pwyllgor, y tu hwnt i Gylch Gorchwyl yr ymchwiliad cyn-deddfu.

73. Mae'r materion hynny wedi'u tanlinellu yn yr adroddiad, ac maent yn codi materion pwysig y dylai Llywodraeth Cymru eu hystyried ochr yn ochr ag argymhellion ffurfiol yr adroddiad, ym marn y Pwyllgor.

Cyfrifoldeb yn y pen draw pan fydd pethau'n mynd o chwith

74. Roedd briff technegol Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor yn codi cwestiwn ynghylch cyfrifoldeb pwy fyddai pethau yn y pen draw, ar ôl sefydlu Cymwysterau Cymru, petai problemau'n codi yn y dyfodol, er enghraifft ailraddio TGAU Saesneg iaith yn ystod haf 2012 neu faterion ynghylch unedau TGAU Saesneg iaith ym mis Ionawr 2014.

75. Gofynnodd y Pwyllgor i Huw Evans, Cadeirydd Bwrdd Cyngori Cymwysterau Cymru pwy fyddai'n gyfrifol, i bob pwrpas, o dan y trefniadau newydd, petai problemau'n codi. Roedd Mr Evans yn cydnabod bod hwn yn fater pwysig, a bod atebolrwydd yn bwynt allweddol. Ychwanegodd ei fod yn rhywbeth yr oedd y Bwrdd Cyngori a Llywodraeth Cymru'n ei ystyried ar hyn o bryd. Dywedodd Mr Evans wrth y Pwyllgor:

“Nid yw'n iawn o safbwynt y system ansawdd sydd gennym ar y funud bod neb *quite* yn siŵr. Rwy'n credu ei bod yn bwysig, os oes rhywbeth yn mynd o'i le yn y dyfodol, ein bod yn deall pam ei fod wedi mynd o'i le a beth sydd wedi digwydd i'w achosi, ac nad yw'r bys o fai yn cael ei bwyntio ym mhobman.

“I greu'r sefyllfa honno, mae'n rhaid i ni gael systemau ac mae'n rhaid i ni gael y *remit* yn iawn o ran beth yw disgwyliadau pob un – beth yw disgwyliadau'r bwrdd dyfarnu, beth yw'r disgwyliadau ar Gymwysterau Cymru a beth yw'r disgwyliadau ar Lywodraeth Cymru hefyd.”¹⁹

Barn y Pwyllgor

76. Croesawodd y Pwyllgor y ffaith bod Huw Evans yn cydnabod bod y Panel Cyngori a Llywodraeth Cymru'n ystyried atebolrwydd o fewn y trefniadau

¹⁹ Tystiolaeth lafar, 7 Mai 2014, [Cofnod y Trafodion \(para 201\)](#)

newydd, ond roedd yn bryderus ynghylch y ffaith bod angen eglurder ynghylch hyn cyn sefydlu Cymwysterau Cymru.

77. Mae'r Pwyllgor yn credu mai Cymwysterau Cymru ddylai fod yn gyfrifol, yn y pen draw, ac y dylai'r Bil neu ganllawiau cysylltiedig egluro hyn.

Y potensial o gael marchnad y tu allan i Gymru

78. Ystyriodd y Pwyllgor a fyddai marchnad bosibl yn y dyfodol i Cymwysterau Cymru weithredu ac ennill incwm y tu allan i Gymru.

79. Wrth edrych ar fodolau mewn mannau eraill, clywodd y Pwyllgor gan SQA fod ganddo ddulliau ar waith i achredu cymwysterau galwedigaethol cyrff dyfarnu eraill, gan gynnwys rhai o'r tu allan i'r Alban. Dywedodd SQA wrth y Pwyllgor fod hwn yn weithgarwch a oedd yn tyfu, ac yn cyfrannu at y ffaith fod SQA bron â bod yn talu amdano'i hun.

80. Pan ofynnodd y Pwyllgor iddo a fyddai opsiwn tebyg i weithredu y tu allan i Gymru ar gael i Cymwysterau Cymru, atebodd Huw Evans:

“Ar y funud, nid yw hynny'n eistedd yn gyfforddus, i fod yn onest. Rwy'n credu, wrth i'r ddeddfwriaeth symud yn ei blaen, mai cyfle i Gymwysterau Cymru i weithredu yng Nghymru yn unig a fydd gennym. I weithio y tu allan i Gymru, byddai'n rhaid inni greu rhyw bartneriaeth gyda chwmni arall, neu fe fyddai'n rhaid inni wneud rhywbeth bach yn wahanol.”²⁰

81. Ar yr un pryd, esboniodd Gareth Pierce y penderfynwyd ailfrandio gwasanaethau CBAC y tu allan i Gymru fel Eduqas er mwyn gwahaniaethu rhwng y cymwysterau y byddai'n eu cynnig yng Nghymru ac mewn mannau eraill. Dywedodd Huw Evans na fyddai Cymwysterau Cymru'n dymuno ymyrryd â model cyllido CBAC a bod y Bwrdd Cyngori wedi 'derbyn yn anfodlon' y ffaith ei fod yn benderfynol o aros yn gorff ar wahân.

Barn y Pwyllgor

82. Tynnodd tystiolaeth gan SQA sylw at y potensial i Cymwysterau Cymru weithredu ac ennill incwm y tu allan i Gymru. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ystyried y potensial i Cymwysterau Cymru weithredu ac ennill incwm y tu allan i Gymru.

²⁰ Tystiolaeth lafar, 7 Mai 2014, [Cofnod y Trafodion \(para 168\)](#)

Cywirdeb a deall diffiniadau

83. Mae'r termau 'rheoleiddio', 'achredu', 'dilysu', 'sicrhau ansawdd', 'a gydnabyddir yn y fframwaith cymwysterau' wedi cael eu defnyddio'n weddol hyblyg a chyfnewidiol yn y dystiolaeth y mae'r Pwyllgor wedi'i chael. Mae tystiolaeth hefyd yn awgrymu bod modd dadlau nad yw'n eglur beth y mae 'cyfrifoldeb dros ddyfarnu' yn ei olygu yng nghyd-destun cymwysterau.

84. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor, pwysleisiodd Gareth Pierce (CBAC) pa mor bwysig oedd deall termau o'r fath yn glir o dan y trefniadau newydd yng Nghymru.²¹

85. Mae gwahaniaeth o ran sut y defnyddir y termau yn yr Alban hefyd. Defnyddir 'achredu' yng nghyd-destun cymwysterau galwedigaethol, ond nid yng nghyd-destun cymwysterau academaidd - 'sicrhau ansawdd' yn hytrach na 'rheoleiddio' yw'r term a ddefnyddir yma. Dywedodd SQA wrth y Pwyllgor fod y ddeddfwriaeth berthnasol sy'n nodi swyddogaethau SQA, Deddf Addysg (Yr Alban) 1996, wedi dod cyn y cysyniad o 'reoleiddio' i bob pwrpas, felly nid oedd wedi cyflwyno swyddogaethau rheoleiddio i SQA yng nghyswllt cymwysterau academaidd.

Barn y Pwyllgor

86. Mae'r Pwyllgor yn bryderus fod gwahaniaeth o ran deall y termau a ddefnyddir mewn gwahanol systemau addysg, a sut y mae'r termau hyn yn cael eu defnyddio. Er nad oes yn rhaid i hyn fod yn broblem yng Nghymru, o anghenraid, ar yr amod bod ystyr termau o'r fath yn ddigon eglur yn y trefniadau newydd ar gyfer cymwysterau, mae angen ystyried y mater yn ofalus ac yn drylwyr.

87. Dylai'r Bil ddarparu diffiniadau eglur a chadarn o'r derminoleg a ddefnyddir drwy'r system 'cymwysterau' gyfan, ac yn arbennig yn y trefniadau newydd sy'n cael eu cyflwyno yng Nghymru, i sicrhau dealltwriaeth glir o'r termau yn y system addysg drwyddi draw.

A ddylai Cymwysterau Cymru gymeradwyo'r holl gymwysterau galwedigaethol?

88. Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd Huw Evans, er bod angen ystyried y mater ymhellach, barn y Bwrdd Cynghori ar hyn o bryd oedd:

“any qualification that is publicly funded and offered within Wales should have the Qualifications Wales seal of approval on it.”²²

²¹ [CYPE\(4\)-12-14 - Papur 1 - CBAC](#)

89. Cyfeiriodd Mr Evans at yr angen a danlinellwyd yn yr Adolygiad, i symleiddio nifer y cymwysterau galwedigaethol a gynigir yng Nghymru ac i Cymwysterau Cymru fod yn 'borthor' i sicrhau eu bod yn addas i'r pwrpas ac yn bodloni anghenion Cymru.

90. Byddai hyn yn atal cymwysterau galwedigaethol a oedd un ai wedi cael eu datblygu yng Nghymru, ond heb eu cymeradwyo gan Cymwysterau Cymru, neu o'r tu allan i Gymru, ond heb eu cyflwyno i gael eu cymeradwyo, rhag cael eu hariannu gan arian cyhoeddus. Roedd hyn yn peri pryder i NTfW, a oedd yn credu mai'r darparwr hyfforddiant galwedigaethol ddylai ddewis y corff dyfarnu o hyd. Dywedodd Jeff Protheroe, Rheolwr Gweithrediadau NTfW, wrth y Pwyllgor:

"We obviously would not want to see Qualifications Wales putting up barriers to entry for awarding organisations to offer qualifications in Wales, because we recognise that there needs to be enough scope for providers to choose which awarding organisation to work with. The nature of what we deliver is so wide across all sectors and industries etc that we need to have that breadth of offer."²³

91. Yn yr Alban, mae'n rhaid achredu drwy frand Cymwysterau Galwedigaethol yr Alban (SVQ), ond mae achrediadau eraill yn wirfoddol. Mae'n bosibl y byddai corff dyfarnu sy'n darparu cymwysterau galwedigaethol yn yr Alban yn dewis SQA i achredu cymhwyster, oherwydd yn aml ystyrir achredu o fudd i'r corff dyfarnu oherwydd yr hygredd y mae hyn yn ei roi iddo. Fodd bynnag, mae cymwysterau galwedigaethol nad ydynt yn rhan o frand SVQ ar gael yn yr Alban o hyd.

92. Yn yr un modd, dywedodd QQI wrth y Pwyllgor fod gan Iwerddon system gymwysterau agored, gyda nifer o gymwysterau galwedigaethol a dyfarniadau Addysg Uwch y DU yn cael eu cynnig yn Iwerddon. Nid yw QQI yn 'ail sicrhau ansawdd' cymwysterau o'r fath, ond dywedodd fod yn rhaid iddo gael ffydd yn systemau rheoleiddio gwledydd eraill. Felly mae ganddo gytundebau gyda chyrff fel Ofqual yn Lloegr.

Barn y Pwyllgor

93. Mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru'n dymuno ystyried a ddylai'r holl gymwysterau galwedigaethol sydd ar gael am arian cyhoeddus yng Nghymru gael eu cymeradwyo gan Cymwysterau Cymru (yn ôl gweledigaeth

²² Tystiolaeth lafar, 7 Mai 2014, [Cofnod y Trafodion \(para 191\)](#)

²³ Tystiolaeth lafar, 7 Mai 2014, [Cofnod y Trafodion \(para 269\)](#)

Huw Evans) neu a ddylai'r farchnad fod yn fwy agored a rhoi mwy o ddewis i ddarparwyr o ran cyrff dyfarnu.

94. Mae'n rhaid i'r Bil fod yn sicr ynghylch y mater hwn ac adlewyrchu gweledigaeth glir ynghylch y dull gweithredu a ffafrir gan Lywodraeth Cymru.

Darpariaeth cymwysterau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg

95. Tynnodd NTfW sylw at y ddarpariaeth cymwysterau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor. Disgrifiodd NTfW y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg fel 'her enfawr' i'r sector galwedigaethol, ac roedd yn gobeithio y byddai Cymwysterau Cymru'n darparu'r un faint o gefnogaeth â'r hyn sydd ar gael ar gyfer cymwysterau academaidd, a fyddai'n hybu dyheadau o sicrhau gwerth cyfartal.

96. Wrth drafod y gefnogaeth sydd ar gael i ddarparu cymwysterau galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg, dywedodd NTfW:

“Currently, that does not exist at all; it is literally up to the market to create that as opposed to it being something strategic.”²⁴

97. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi bod Argymhelliad 6 yn adolygiad Huw Evans yn dweud:

“Dylai'r cymwysterau galwedigaethol hynny y teimlid eu bod yn fwyaf perthnasol ac o'r gwerth mwyaf i ddysgwyr 14 i 19 oed ac i economi Cymru hefyd [yn ogystal â'r cymwysterau cyffredinol] fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg yr un pryd ac am yr un gost i ddarparwyr.”²⁵

Barn y Pwyllgor

98. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried dulliau y gallai Cymwysterau Cymru eu defnyddio i gyfrannu at wella darpariaeth ddwyieithog cymwysterau galwedigaethol.

Yr her o aildiffinio perthynas a meithrin cysylltiadau a'r broses ar gyfer gosod safonau a datblygu cymwysterau galwedigaethol

99. Dywedodd QOI mai un o'i heriau mwyaf fel sefydliad newydd oedd peidio â datblygu cymwysterau ei hun, ond yn hytrach, aildiffinio'r berthynas a'r cytundebau rhwng yr holl wahanol gyrff sy'n ymwneud â'r sector cymwysterau.

²⁴ Tystiolaeth lafar, 7 Mai 2014, [Cofnod y Trafodion \(para 284\)](#)

²⁵ [Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru](#)

100. Wrth sôn am ei rôl fel yr un corff dyfarnu cenedlaethol ar gyfer cymwysterau galwedigaethol, dywedodd QQI mai un o'r cwestiynau allweddol iddo oedd sut y mae delio ag oddeutu 1,600 o wahanol gymwysterau a sut y mae rhannu'r cyfrifoldeb dros ddatblygu safonau. Yn hyn o beth, mae QQI yn gweld ei rôl fel catalydd, gan nad yw maint y sefydliad yn caniatáu iddo wneud popeth ei hun, ond gall symbylu a dylanwadu ar ddatblygiadau a newidiadau, drwy feithrin cysylltiadau.

101. Felly, mae QQI yn ystyried sefydliadau proffesiynol a galwedigaethol yn grwpiau pwysig iawn. Mae QQI yn gyfrifol am y safonau a'r cymwysterau ei hun, ac mae'n gwahodd sefydliadau eraill i ddangos sut y byddant yn asesu hynny. Yna mae QQI yn 'dilysu' hyn, a'r sefydliadau a'r cyrff dyfarnu unigol eu hunain sy'n asesu. Mae'r berthynas statudol rhwng QQI a sefydliadau proffesiynol / galwedigaethol yn hanfodol i'r broses hon. Yn Iwerddon, mae ymgynghori a chydweithio rhwng sefydliadau o'r fath a QQI wedi'i sefydlu mewn deddfwriaeth.

102. Cyfeiriodd SQA at y berthynas agos sydd ganddo â chyflogwyr a'r sectorau proffesiynol wrth ddatblygu cymwysterau galwedigaethol yn yr Alban.

103. Roedd tystiolaeth ysgrifenedig Huw Evans yn disgrifio sut y bwriedir i gydweithio o'r fath ddigwydd yng Nghymru:

"It will be essential that 'Qualifications Wales' liaises extensively with employers and sectors to ensure that those qualifications deemed to be fit for purpose for use in Wales are confirmed to meet the needs of employers – that the skills and knowledge required are valid and current, that the assessment methodology is appropriate and that the progression routes into employment are clear. The new Advisory Boards [Sector Qualification Advisory Panels] are seen as being the effective sector based interface."²⁶

104. Yn y papur, roedd NTfW yn efryn ar Cymwysterau Cymru i sicrhau bod yr holl gymwysterau'n cael eu craffu fel rhan o'r broses sicrhau ansawdd er mwyn iddynt gynnig y sgiliau cyflogadwyedd y mae cyflogwyr eu heisiau. Dywedodd NTfW fod angen i Cymwysterau Cymru ddatblygu perthynas weithio agos â'r Paneli Cynghori ar Gymwysterau Sector a fyddai'n cael eu sefydlu cyn hir, er mwyn i hyn gael ei wireddu, ac er mwyn sicrhau bod unrhyw gymwysterau galwedigaethol cyfredol neu yn y dyfodol, yn addas i'r pwrpas.

²⁶ [CYPE\(4\)-12-14 – Papur 2 – Huw Evans](#)

Barn y Pwyllgor

105. Mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru'n dymuno ystyried beth y mae modd ei ddysgu o Iwerddon, o ran y ffordd y mae Cymwysterau Cymru'n gweithio gyda'r sector proffesiynol ar ddatblygu safonau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol.

106. Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio cyfleoedd a ddarperir gan y Paneli Cynghori ar Gymwysterau Sector i hybu ymgysylltu agos ac effeithiol gyda'r sectorau proffesiynol a galwedigaethol.

Y berthynas rhwng Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru

107. Dywedodd Huw Evans yn ei bapur²⁷ y bydd yna broses penodiadau cyhoeddus a gydnabyddir ar gyfer Cadeirydd a Bwrdd Cymwysterau Cymru, grŵp rhanddeiliaid 'dylanwadol a chynrychioliadol' i roi cyngor i'r Bwrdd, ac 'uned nawdd' yn Llywodraeth Cymru i reoli ei berthynas â Cymwysterau Cymru. Pan ofynnwyd i Huw Evans am uned nawdd o'r fath, dywedodd wrth y Pwyllgor:

“...the success of this venture with Qualifications Wales is twofold. First of all, it is about having governance that is effective within Qualifications Wales, and part of that governance includes an effective chief executive officer who will run it, but it also has to have an effective sponsorship division that sets the remit, conveys the policy, and does so in a meaningful way. I would imagine that that would come under the remit of the Minister for education and a division that the Minister for education would set up to undertake that process. That is not a detailed discussion that the Advisory Board has had. We have talked about sponsorship and we have talked about the need for efficient and effective sponsorship, but we have not talked about the who and the when and how it is going to happen. I think that is a matter for Welsh Government.”²⁸

Barn y Pwyllgor

108. Mae'r Pwyllgor yn credu y bydd y berthynas rhwng Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru yn hanfodol a'i bod yn bwysig fod y Bil yn nodi gweledigaeth glir ar gyfer hyn.

²⁷ [CYPE\(4\)-12-14 – Papur 2 – Huw Evans](#)

²⁸ Tystiolaeth lafar, 7 Mai 2014, [Cofnod y Trafodion \(para 222\)](#)